62. Rhos Pil-Bach a Phennar Fawr

Plwmp, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 198 yr A.O., Aberteifi a Cheinewydd. Prif fynedfa: SN369528; Canolfan y safle: SN368529
Statws	Wedi'i ddynodi fel SoDdGA.
Daliadaeth	Prynwyd rhydd-ddaliadaeth y warchodfa yn 1982 gyda benthyciad gan Gronfa Dir CFCN a chymorth grant gan NCC a CFEN.
Maint	27.4 he (67.6 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Dylid troi i'r gogledd oddi ar yr A487 wrth y Swyddfa Bost ym mhentref Plwmp, gan ddal i'r dde wedi mynd ymlaen am ychydig. Wedi rhyw 300m o'r pentref, byddwch yn gweld trac yn arwain i lawr i'r caeau yn SN369527. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Mae'r gwasanaeth bws 550 rhwng Aberystwyth ac Aberteifi'n rhedeg bob awr ac yn stopio ym Mhlwmp, sy'n rhyw 0.5km o'r warchodfa.

Disgrifiad: Porfa o Wellt y Gweunydd a Brwyn, gyda gwrychoedd hynafol. Llain o rostir gwlyb yn yr iseldir, a phyllau.

Mae Rhos Pil Bach yn cynnwys pum cae o borfa wedi'u hamgáu gan gloddiau hynafol a gwrychoedd. Mae'r ddau gae yn y pen gogledd-ddwyreiniol yn enghreifftiau o borfa cefnen a rhych, a'r cae mwyaf dwyreiniol o'r ddau sy'n cynnig y cyfoeth mwyaf o rywogaethau, gyda hyd at 28 rhywogaeth o blanhigion yn blodeuo ym mhob metr sgwâr.

Nodweddir y glaswellt gan Faeswellt Brown, Gwellt y Gweunydd, Melynwellt a Chawn Penwyn, gyda Hesg Cyffredin a Hesg Carnasiwn. Ceir cyfoeth o degeirianau ar y safle, yn arbennig Tegeirian Brith y Rhos (5-7), ond hefyd y Tegeirian Brych Cyffredin (6-7) a Thegeirian Cors y Gogledd (6-7). Ymhlith y planhigion nodedig eraill sy'n blodeuo yma mae Llafn y Bladur (6-8), Gwlyddyn Mair y Gors (6-9), Bara'r Cythraul (7-9) (y planhigyn sy'n fwyd i löyn byw Brith y Gors (5-7)), Ysgall y Ddôl (6-9) a Charpiog y Gors (5-9). Mae'r tri phwll sydd ar y safle'n ychwanegu at yr amrywiaeth a geir yma.

Mae Pennar Fawr yn debyg o ran natur ond bod ei strwythur yn fwy twmpathog. Mae'n un adran sengl, agored, sydd ychydig dros 16he, ac mae'n darparu lloches ar gyfer y Gïach Gyffredin yn ystod misoedd y gaeaf. Ceir peth rhostir sychach i'r gogledd-ddwyrain o'r warchodfa hefyd.

rhos pil bach a pennar fawr2 1 10/7/06 9:13:01 am

Nodau Rheoli: Mae'r warchodfa gyfan yn cael ei phori gan wartheg yn ystod yr haf, i gynnal diddordeb botanegol y safle, ac mae hefyd yn darparu uchder amrywiol yn y glaswellt, sy'n angenrheidiol i löyn byw Brith y Gors. Rheolir y prysgwydd i'w hatal rhag ymledu'n ormodol i'r glaswelltir. Mae gwaharddle bychan yn dangos yr effaith y mae pori wedi ei gael ar y warchodfa.

Amser da i ymweld	
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu
Mai - Awst	Glöynnod byw a phryfed eraill
Mehefin	Glöyn byw Brith y Gors
Mai – Medi	Blodau'r glaswelltir

rhos pil bach a pennar fawr2 2 10/7/06 9:13:03 am